# Chwalu'r Chwedlau

**Mae materion fel effaith cig coch ar yr amgylchedd a'n hiechyd ni'n bynciau llosg sy'n cael eu trafod ar hyn o bryd. Ond mae'n bwysig cofio bod amrywiadau enfawr yn effaith amgylcheddol gwahanol systemau ffermio ar draws y byd, tra bod Cymru yn lle arbennig o addas i fagu gwartheg a defaid. Cofiwch hefyd y gall cig coch chwarae rhan hanfodol mewn diet iach a chytbwys.**

## Gweithio gyda'n hamgylchedd naturiol

### Yn gwarchod amgylchedd naturiol ein gwlad




Mae ein ffermwyr da byw wedi chwarae rhan ganolog yn creu a chynnal y tirweddau gwledig hynod brydferth rydym yn eu caru ers canrifoedd. Mae eu rheolaeth gynaliadwy yn helpu i greu amgylchedd wledig amrywiol sy'n llawn bywyd gwyllt, yn groesawgar i ymwelwyr a sy'n cynnal rhwydwaith o ardaloedd gwarchodedig gaiff eu rheoli'n ofalus gan bori cyfrifol.

Nid ar ddamwain y crëwyd nifer o'n tirweddau mwyaf eiconig ond yn hytrach o ganlyniad i genedlaethau o reoli gofalus.

Mae topograffeg a thirwedd Cymru yn ffafrio system gynhyrchu glaswelltiroedd

Mae **80%** o'r tir yn addas yn bennaf ar gyfer ffermio da byw



Mae mwyafrif helaeth o'r tir yn anaddas ar gyfer tyfu bwydydd a chnydau fel...






Tirwedd
+
Amodau hinsoddol
=
Un o'r ardaloedd mwyaf cynaliadwy yn y byd i gynhyrchu cig coch

Mae amaethyddiaeth yn gyfrifol am 10% o allyriadau yn y DU,

ond mae hyn yn llai na'r sectorau trafnidiaeth a busnes




Mae ymchwil yn dangos bod technegau rheoli glaswelltir ein ffermwyr yn helpu i


wrthbwyso allyriadau carbon trwy ei gadw o dan y ddaear

### Mae'r diwydiant da byw yn hynod effeithlon a chynhyrchiol...

Caiff Cig Oen a Chig Eidion Cymru PGI eu magu ar laswellt a grug organig

Mae eu pori yn gwella bioamrywiaeth ac yn gwella iechyd a strwythur y pridd





Mae ffermwyr da byw yn defnyddio ein tir yn effeithiol drwy ddarparu fitaminau a mwynau hanfodol sydd eu hangen arnom ar gyfer bywydau iach a hapus.

Trwy fwyta bwyd sydd wedi ei gynhyrchu'n lleol ac mewn modd cynaliadwy, rydym yn cefnogi lles ein cymunedau gwledig tra ar yr un pryd yn lleihau'r effaith amgylcheddol ddaw yn sgil mewnforio bwyd o bob cwr o'r byd.